# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 3 Hydref 2013** |
| Amser: | **13:15 – 15:27** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300001_03_10_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Christine Chapman**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Stephen Lisle, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Dave Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies. Roedd Christine Chapman yn dirprwyo ar ei rhan. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Jocelyn Davies.

## 2 Gofal heb ei drefnu: sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

2.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gyda Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Gofal Heb ei Drefnu'. Daeth Dave Thomas a Stephen Lisle i'r cyfarfod gyda'r Archwilydd Cyffredinol. Yn ystod y sesiwn friffio, cafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau.

## 3 Papurau i’w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Gofal heb ei drefnu: Trafodaeth yr Aelodau ar y materion a godwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i ofal heb ei drefnu. Yn benodol, cytunodd yr Aelodau i ganolbwyntio ar ofal sylfaenol lleol, gan gynnwys:

- rôl meddygon teulu o ran darparu gofal heb ei drefnu
- natur contractau meddygon teulu a'u heffaith ar ofal heb ei drefnu
- darpariaeth y tu allan i oriau
- y gwasanaeth '111'
- y grwpiau sy'n defnyddio gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn aml
- cynlluniau ar gyfer darparu gofal heb ei drefnu mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol

**Cam i'w gymryd:**

Y clercod, ynghŷd â Swyddfa Archwilio Cymru, i baratoi papur cwmpasu ar gyfer yr ymchwiliad.

## 6 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Trafodaeth yr Aelodau ar yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru

6.1 Nododd yr Aelodau yr ohebiaeth a gafwyd gan y Llywodraeth, a chytunasant i ysgrifennu at y Llywodraeth, gan godi'r materion a ganlyn:

- Seilwaith TG mewn perthynas ag e-ddysgu
- Cyfranogiad mewn perthynas â phecynnau dysgu ar-lein
- Gwastraff bwyd mewn ysbytai
- Sut y mae sticeri sgorio hylendid bwyd yn cael eu harddangos mewn ysbytai

## 7 Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011: Trafodaeth yr Aelodau ar yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru

7.1 Mynegodd yr Aelodau siom ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru, ond teimla'r Aelodau y byddai'n fuddiol rhannu'r ohebiaeth honno gyda'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

## 8 Buddsoddiad Cyfalaf mewn Ysgolion: Trafodaeth yr Aelodau ar yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru

8.1 Nododd yr Aelodau yr ohebiaeth a gafwyd gan y Llywodraeth, a chytunasant i ysgrifennu at y Llywodraeth, i ofyn am eglurhâd ynghylch y materion a ganlyn:

Y sail rhesymegol ar gyfer penderfynu pa ysgolion yng nghategori C sy'n cael eu dewis ar gyfer y buddsoddiad cyntaf o dan y rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, a rhestr o'r ysgolion hyn

Diffiniad o'r term 'addas i'r diben'

Y dull a ddefnyddir i archwilio ysgolion am asbestos

## 9 Safon Ansawdd Tai Cymru: Trafodaeth yr Aelodau ar yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru

9.1 Nododd yr Aelodau yr ohebiaeth a gafwyd gan y Llywodraeth. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor fod ei swyddfa yn bwriadu gwneud gwaith yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

## 10 Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg: Trafodaeth yr Aelodau ar yr adroddiad drafft

10.1 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft a chytunasant y byddent yn cytuno ar fersiwn derfynol drwy gyfnewid negeseuon e-bost.